RHONDDA CYNON TAF

# STRATEGAETH A CHYNLLUN GWEITHREDU GWASANAETH Y LLYFRGELLOEDD RHONDDA CYNON TAF 2022-25



## DYLETSWYDDAU STATUDOL LLYFRGELLOEDD YN Y DU

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964 'i ddarparu gwasanaeth llyfrgelloedd cynhwysfawr ac effeithlon i bawb'.

Dydy'r Ddeddf ddim yn nodi sut y dylai awdurdodau lleol sicrhau eu bod nhw'n darparu gwasanaeth llyfrgelloedd modern ac effeithlon sy'n diwallu anghenion eu cymunedau ond mae gofyn eu bod nhw'n:

- ystyried annog oedolion a phlant i wneud defnydd llawn o Wwasanaeth y Llyfrgelloedd

- rhoi benthyg llyfrau a deunydd printiedig arall yn rhad ac am ddim i'r rhai sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio yn yr ardal.

Yng Nghymru mae'r ddyletswydd 'i oruchwylio a hyrwyddo gwelliant yn y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus a ddarperir drwy awdurdodau lleol' wedi'i datganoli i'r Gweinidog Cynulliad perthnasol. Ers 2002 mae'r ddyletswydd yma wedi'i chyflawni drwy Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r safonau yma'n cynnwys 12 hawl graidd a 15 Dangosydd Ansawdd.

Cynhelir asesiad blynyddol o gyflawniad pob gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru yn erbyn y safonau. Oherwydd heriau pandemig Covid-19 a chau llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol, ni chynhaliwyd asesiad yn 2020/21. Serch hynny, yn 2019/20 cyflawnodd Gwasanaeth y Llyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf bob un o'r 12 hawl graidd yn llawn. O'r 9 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, cyflawnodd Rhondda Cynon Taf 5 yn llawn, 1 yn rhannol a methodd â chyflawni 3. Mae Adroddiad Asesu Llawn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.



## DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL 2015

Nod hirdymor Llywodraeth Cymru yw adeiladu Cymru sy'n iach ac egnïol, yn ffyniannus a diogel, yn uchelgeisiol ac yn dysgu, ac yn unedig a chysylltiedig.

Dyma Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Mae llyfrgelloedd yn cyfrannu at bob un o'r 7 Nod Llesiant trwy:

- rhoi mynediad i fyd dysgu gydol oes trwy lyfrau a gwybodaeth ar-lein, mynediad am ddim i'r rhyngrwyd a darparu a hwyluso cyfleoedd dysgu i bobl o bob oed
- annog datblygiad personol a chynnig ystod o wasanaethau a gweithgareddau sy'n hybu gwytnwch cymdeithasol ac economaidd
- gweithio gyda phartneriaid i gefnogi llesiant a lleihau arwahanrwydd cymdeithasol gan gynnwys darparu gwybodaeth i gefnogi unigolion i wneud dewisiadau gwybodus a chefnogi'r Cynllun Presgripsiwn Llyfrau
- darparu cyfleusterau diogel a chynhwysol, a chynnig cymorth i'r rhai sydd dan anfantais gymdeithasol i gael mynediad at ddarpariaeth yn eu cymunedau a fydd yn gwella eu rhagolygon
- darparu mannau lle mae modd i bobl gyfarfod a chysylltu â'i gilydd a gyda'r gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw'n lleol, gan gynnwys trwy ddatblygu canolfannau lleol
- annog a hyrwyddo gweithgareddau diwylliannol ar gyfer pobl o bob oed, cadw casgliadau lleol sy'n diogelu treftadaeth leol a sicrhau mynediad at ddeunyddiau, a gweithgareddau yn y Gymraeg
- gwneud defnydd effeithlon o adnoddau, ailgylchu deunyddiau, a gweithio gyda'r Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd a gwasanaethau llyfrgell eraill yng Nghymru i ddatblygu system Rheoli Llyfrgelloedd Cymru Gyfan a gweithredu arfer da sy'n lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.

## CYNLLUN CORFFORAETHOL RHONDDA CYNON TAF

Mae Gwasanaeth y Llyfrgelloedd yn cyfrannu at y blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor 2020–2024 'Gwneud Gwahaniaeth':

- Pobl: annibynnol, iach a llwyddiannus
- Lleoedd: creu cymdogaethau mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw
- Ffyniant: creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuraidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu.

## LLYFRGELLOEDD CYSYLLTIEDIG – CYNIGION LLYFRGELLOEDD CYFFREDINOL

Mae Gwasanaeth y Llyfrgelloedd yn cael ei arwain ym mhopeth a wna gan themâu a nodir gan Lywodraeth Cymru yn ei Chweched Fframwaith Ansawdd – 'Llyfrgelloedd Cysylltiedig ac Uchelgeisiol' sy'n amlinellu'r Cynigion Cyffredinol a ganlyn:

**IECHYD A LLES: Iachach, Hapusach, Cysylltiedig -** Cefnogi iechyd a lles pobl a chymunedau lleol trwy wasanaethau sy'n hysbysu, ymgysylltu a chysylltu.

**GWYBODAETH A DIGIDOL: Hysbysu, Ysbrydoli, Arloesi -** Sicrhau bod modd i gymunedau lleol gael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau digidol o safon, i ddysgu sgiliau newydd ac i deimlo'n ddiogel ar-lein.

**DARLLEN: Ymgysylltu, Dychmygu, Darganfod** - Adeiladu cymdeithas lythrennog a hyderus drwy ddatblygu, cyflwyno a hyrwyddo gweithgareddau darllen creadigol mewn llyfrgelloedd.

**DIWYLLIANT A CHREADIGRWYDD: Archwilio, Creu, Cymryd Rhan -** Galluogi cymunedau lleol i gael mynediad at amrywiaeth o brofiadau celfyddydol a diwylliannol amrywiol o safon trwy lyfrgelloedd lleol a chymryd rhan ynddyn nhw.

## GWELEDIGAETH

Ein gweledigaeth ar gyfer llyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf yw cefnogi pob unigolyn a chymuned i gyflawni hyd gorau eu gallu.



## GWASANAETH Y LLYFRGELLOEDD RHONDDA CYNON TAF

Er gwaethaf y pwysau ar gyllid awdurdodau lleol ledled Cymru, mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi cynnal model cymysg o ran cyflenwi'r gwasanaeth, sy'n cynnwys:

- 3 Llyfrgell Ardal
- 10 Llyfrgell Gangen
- Darpariaeth symudol gan gynnwys gwasanaeth Llyfrgell o'ch Cartref ar gyfer trigolion sydd ddim yn gallu defnyddio llyfrgelloedd sefydlog
- Gwasanaeth y Llyfrgelloedd i Ysgolion sy'n cynnig gwasanaeth benthyca a chynghori i bob ysgol gynradd
- Llyfrgellydd Plant a Phobl Ifainc sy'n datblygu rhaglenni a gweithgareddau sy'n hyrwyddo darllen a llythrennedd gwybodaeth ymysg pobl ifainc
- Mae e-lyfrau, e-lyfrau llafar ac e-gylchgronau ar gael ar-lein bob amser i'n holl drigolion
- Casgliadau astudiaethau lleol yn llyfrgelloedd Aberdâr, Pontypridd a Threorci
- Mynediad ar-lein i ddeunyddiau astudiaethau lleol a chasgliadau ffotograffig
- Darparu gwasanaeth gwybodaeth 'IBobUn' wyneb yn wyneb y Cyngor
- Mynediad i fannau cyfarfod cymunedol a thechnoleg ddigidol

Mae datblygu canolfannau cymunedol o 2019 wedi ychwanegu dimensiwn arall ir Wwasanaeth y Llyfrgelloedd ac wedi gwella'r cynnig i drigolion. Mae'r llyfrgelloedd canlynol wedi'u cydleoli ar hyn o bryd â gwasanaethau eraill y Cyngor a/neu sefydliadau partner:

- Porth
- Aberpennar (Canolfan Pennar)
- Glynrhedynog (Yr Hwb)
- Pentre'r Eglwys (Canolfan Dysgu Gydol Oes Gartholwg)
- Llantrisant (wedi'i chydleoli â'r ganolfan hamdden)
- Pontypridd (Llys Cadwyn)
- Treorci (Gwasanaeth y Celfyddydau/Theatr y Parc a'r Dâr)

Yn ogystal, ym mis Ebrill 2020, unwyd gwasanaeth gwybodaeth a chyngor IBobUn y Cyngor â Gwasanaeth y Llyfrgelloedd. Mae'r gwasanaeth yma'n gweithredu o'r adeiladau llyfrgell/canolfannau canlynol:

- Treorci
- Aberdâr
- Llys Cadwyn
- Canolfan Pennar (Aberpennar)
- Pont-y-clun

## EFFAITH COVID-19

Cafodd Covid-19 effaith fawr ar ddarpariaeth llyfrgelloedd yn 2020-21. Yr effaith negyddol fwyaf oedd y gofyniad i wasanaethau gau yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol ac yn ystod y cyfyngiadau lleol yn Rhondda Cynon Taf. Roedd cyfyngiadau parhaus wrth i Gymru fynd drwy wahanol lefelau rhybudd yn parhau i gael effaith negyddol ar nifer yr ymwelwyr â llyfrgelloedd. Er hyn, bu cynnydd sylweddol yn nifer y bobl a oedd yn lawrlwytho e-lyfrau ac e-lyfrau llafar.

Addasodd Gwasanaeth y Llyfrgelloedd yn gyflym i'r heriau a'r ddarpariaeth, megis cynnal sesiynau adrodd straeon a sesiynau crefft i blant ar-lein tra bod datblygiad 'Gwasanaeth Archebu a Chasglu' ar gyfer llyfrau wedi bod yn hynod boblogaidd ac wedi galluogi llyfrgelloedd i ddarparu gwasanaethau o ddiwedd Mehefin 2020 ymlaen yn unol â rheoliadau iechyd y cyhoedd.

Cafodd y ddarpariaeth llyfrgell symudol ei hatal yn ystod y cyfnod yma i ddiogelu staff a chwsmeriaid gan nad oedd y cerbydau'n gallu bodloni gofynion cadw pellter cymdeithasol. Yn ogystal, roedd angen i staff mewn meysydd eraill o'r gwasanaeth ac mewn mannau eraill yn y Cyngor ddarparu cymorth i drigolion. Serch hynny, darparwyd adnoddau ychwanegol i'r gwasanaeth Llyfrgell o'ch Cartref ar gyfer trigolion oedd ddim yn gallu gadael eu cartrefi i nôl llyfrau - mae hyn wedi bod yn hanfodol i les y trigolion mwyaf agored i niwed.

Yn ystod y cyfnod yma o gyfyngiadau symud y cafodd canolfannau cymunedol a'r cymorth a gydlynwyd o ganolfannau mewn llyfrgelloedd lleol yr effaith fwyaf ar iechyd a lles trigolion.

Mae'n anodd ar hyn o bryd asesu effaith tymor hwy y pandemig. Er hyn, cydnabyddir y bydd rhai cwsmeriaid yn dal i fod yn ddihyder i ymweld â'u llyfrgelloedd a'u canolfannau lleol ac mae'n bosibl y bydd hyn yn parhau am gyfnod hwy na'r disgwyl.

## BLAENORIAETHAU ALLWEDDOL

Mae'r pwysau ariannol y mae awdurdodau lleol wedi eu profi yn ystod y blynyddoedd diwethaf a'r rhai sydd wedi'u hachosi gan bandemig Covid-19 wedi golygu bod rhaid i wasanaeth y llyfrgelloedd adolygu pob agwedd ar yr hyn y mae'n ei gynnig i sicrhau ei fod yn:

- parhau i fod yn berthnasol mewn oes sy'n gynyddol dechnolegol
- darparu mynediad i amrywiaeth o gyfleoedd a chymorth y mae eu hangen ar drigolion
- croesawu newid ac yn mabwysiadu dull arloesol wrth ddatrys problemau er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn addas at y diben yn y tymor hir.

Bydd y gwasanaeth yn canolbwyntio ar:

- sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn berthnasol mewn byd sy'n newid yn gyflym
- gwella'r profiad o ddefnyddio llyfrgelloedd i bob defnyddiwr
- manteisio ar y cyfleoedd a'r gwersi a ddysgwyd o bandemig Covid-19 i lywio a llunio darpariaeth yn y dyfodol.

Bydd y canlynol yn sail i bob datblygiad:

- Ymgysylltu â chymunedau i ddeall eu hanghenion
- Ymrwymiad i wrando ar leisiau aelodau o'r gymuned na chlywir yn aml
- Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael yr ystod o ddarpariaeth sydd ei hangen arnyn nhw
- Sicrhau bod llyfrgelloedd/canolfannau yn parhau wrth galon cymunedau lleol
- Darparu gwasanaethau ac adnoddau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

**Er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau yma, bydd y gwasanaeth yn:**

- parthau i wella'r rhaglen o roi adnoddau ar-lein fel bod modd i ddefnyddwyr chwilio am gasgliadau, eu darllen a'u defnyddio ar unrhyw adeg
- manteisio ar ddatblygiadau TG newydd i wella profiad y cwsmer
- sicrhau bod gyda'r holl staff y sgiliau angenrheidiol i ddarparu gwasanaeth sy'n parhau i fod yn berthnasol mewn byd sy'n newid yn gyflym o ran arloesedd technolegol ac arferion defnyddwyr, a'r effaith y mae hyn yn ei gael ar sut mae defnyddwyr am ddefnyddio'r gwasanaeth
- sicrhau bod modelau newydd ar gyfer cyflenwi gwasanaethau yn dod yn rhan annatod o'r ddarpariaeth a monitro adborth defnyddwyr i sicrhau eu bod yn cyrraedd y nod
- adeiladu ar ddarpariaeth gwasanaethau ar-lein i blant a nodwyd yn ystod pandemig Covid-19 i gryfhau, ehangu, a chynyddu cyrhaeddiad y gwasanaethau yma i deuluoedd ar draws RhCT
- sicrhau bod modd i drigolion gael gafael ar ystod eang o gyfleoedd dysgu
- gweithio gyda phartneriaid i ddarparu ystod ehangach o wybodaeth, cyngor a chymorth ar iechyd a lles
- gweithio gyda phartneriaid a gwirfoddolwyr yn y sectorau treftadaeth, celfyddydol a diwylliannol i ddatblygu ystod o weithgareddau diwylliannol
- cydnabod a hyrwyddo darllen a defnyddio'r llyfrgell fel elfen hanfodol i helpu i wella iechyd meddwl a lles pobl
- cyfuno gwasanaethau traddodiadol a digidol drwy ddatblygu strategaeth ddigidol ar gyfer llyfrgelloedd
- adlewyrchu pob cymuned wrth hyrwyddo ac ymgysylltu â'n casgliadau diwylliant, treftadaeth a hanes lleol
- cefnogi datblygiad pellach canolfannau cymunedol gan weithio gyda phartneriaid o'r Rhwydweithiau Cymdogaeth

- rhoi cyfleoedd i asiantaethau a phartneriaid gydweithio i fynd i'r afael â thlodi a hwyluso mentrau cyflogadwyedd.

## DEILLIANNAU AC EFFEITHIAU

- Bydd modd i bobl wella eu gwybodaeth/sgiliau ar ôl defnyddio'r llyfrgell
- Bydd modd i bobl gymryd rhan mewn achlysuron darllen ac achlysuron diwylliannol eraill sy'n cael eu trefnu gan y llyfrgell o'u dewis nhw
- Bydd pobl yn teimlo'n rhan o gymuned wrth ddefnyddio gwasanaeth y llyfrgelloedd
- Bydd modd i bobl fanteisio ar gyfleoedd digidol trwy ddefnyddio'r llyfrgell
- Bydd pobl yn gallu ail-gydio mewn darllen ac ymweld â'r llyfrgell fel gweithgaredd amser hamdden pleserus
- Bydd iechyd a lles personol yn gwella trwy ddefnyddio'r llyfrgell
- Bydd modd i bobl chwarae rhan fwy mewn materion lleol drwy'r cyfleusterau yn y llyfrgell.



| Ymweliadau corfforol | | | |
|---|---|---|---|
| **2018 – 2019** | **2019 – 2020** | **2020 – 2021** | **2021 - Ionawr 2022** |
| 727,922 | 712,686 (hyd at 20/03/20) | 11,952 | 284,145 |

| Ymweliadau rhithwir | | | |
|---|---|---|---|
| **2018 – 2019** | **2019 – 2020** | **2020 – 2021** | **2021 – 31 Rhagfyr 2021** |
| 114,966 | 147,601 | 177,525 | 112,915 |

| Eitemau ffisegol a fenthycwyd | | | |
|---|---|---|---|
| **2018 – 2019** | **2019 – 2020** | **2020 – 2021** | **2021 - Ionawr 2022** |
| 434,404 | 535,281 | 98,737 | 185,227 |

| Eitemau digidol a fenthycwyd | | | |
|---|---|---|---|
| **2018 – 2019** | **2019 – 2020** | **2020 – 2021** | **2021 – Ionawr 2022** |
| 30,309 | 48,330 | 88,289 | Dd/B |

| Aelodau gweithredol | | | |
|---|---|---|---|
| **2018 – 2019** | **2019 – 2020** | **2020 – 2021** | **2021 – Ionawr 2022** |
| 13,948 | 18,632 | 22,981 | 12,797 |

# beth mae ein defnyddwyr yn ei ddweud

"Mae gyda chi adnoddau gwerthfawr, sy'n haeddu cydnabyddiaeth yn y cyfnod yma pan mae nifer cynyddol o bobl yn ymchwilio i hanes eu teulu."

"Rydw i'n hynod ddiolchgar i wasanaeth y llyfrgelloedd am fy nghefnogi yn fy rôl a hoffwn ganmol y gwaith mae'n ei wneud i gefnogi grwpiau cymunedol a gwirfoddol."

"Fel llawer o bobl eraill, rydw i wedi cael bywyd anodd ac unig yn ystod y cyfyngiadau presennol. Roedd y system clicio a chasglu yn ein llyfrgell yn fendith ac rydw i'n ei gwerthfawrogi'n fawr."

"Diolch yn fawr i staff y llyfrgell am roi gwasanaeth gwych yn ystod yr adeg od yma."

"Roedd y staff yn mynd yr ail filltir, fe wnaethon nhw fy helpu i ddewis llyfrau addas i'w cymryd adref. Roedd y plant wrth eu bodd. Es i'n ôl i weld beth arall oedd ar gael, ac awgrymodd y staff lyfrau llafar. Roedden nhw'n llwyddiant mawr!!! Roedd y plant wrth eu bodd gyda'r rhain hefyd."

"Rydw i'n gwerthfawrogi'r gwasanaeth yn fawr – mae fy mab 6 oed wedi gwneud llawer o gynnydd gyda'i ddarllen ers i mi ymuno â'r llyfrgell."

# Cynllun Gweithredu 2022 - 2025

| Themâu | Amcan | Camau gweithredu | Seminar | Dangosydd Cyflawniad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn berthnasol mewn byd sy'n newid yn gyflym. | Gwell offer cyfrifiadurol a digidol cyfoes ar gael ym mhob llyfrgell. | Nodi technolegau newydd i ddiwallu anghenion cwsmeriaid newydd. Er enghraifft, y defnydd o offer VR.<br><br>Optimeiddio'r defnydd o'n darpariaeth TGCh bresennol i adeiladu ar welliannau diweddar. Mae hyn yn cynnwys:<br><br>• Archwilio ffyrdd o hyrwyddo a gwella'r defnydd o sgriniau rhyngweithiol mewn ystafelloedd TG i gynyddu defnydd a gwella profiad y cwsmer.<br>• Creu tudalen gartref i'r llyfrgell i'w defnyddio ar bob cyfrifiadur mynediad cyhoeddus i hyrwyddo adnoddau ar-lein y llyfrgell a chaniatáu | Llyfrgellydd y Gwasanaethau Gwybodaeth i arwain gyda staff wedi'u henwebu.<br><br>Prif lyfrgellydd gyda staff sydd wedi'u henwebu. Staff llyfrgell y gangen i fod yn gyfrifol am hyrwyddo rheng flaen a datblygu cyfleoedd a phrosiectau sy'n cael eu nodi. | Nifer defnyddwyr y llyfrgelloedd sy'n ymateb yn gadarnhaol ynghylch defnyddio technoleg gyfrifiadurol a digidol.<br><br>Cynnydd yn nifer aelodau'r llyfrgell sy'n mynychu dosbarthiadau sy'n ymwneud â TG ac yn y defnydd o'r sgriniau rhyngweithiol. | |

| Themâu | Amcan | Camau gweithredu | Seminar | Dangosydd Cyflawniad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | mynediad cyflymach i'r adnoddau yma.<br>• Gweithio mewn partneriaeth i gyflwyno cyfleoedd hyfforddi TG gan gynnwys cyrsiau digidol cyfredol mewn apiau, tabledi, a realiti rhithwir.<br>• Mwy o ddefnydd o dabledi mewn llyfrgelloedd statig a gwasanaethau fel y 'gwasanaeth yn y cartref'.<br>• Ymestyn y defnydd o'r System Rheoli Llyfrgelloedd trwy wneud rhagor o ddefnydd o'r swyddogaethau presennol. Er enghraifft, defnyddio negeseuon ac e- | | | |

| Themâu | Amcan | Camau gweithredu | Seminar | Dangosydd Cyflawniad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | byst i gysylltu ag aelodau'r llyfrgell.<br><br>Dod o hyd i gyllid allanol perthnasol a gwneud cais amdano, fel y bo'n briodol. | <br><br><br>Prif lyfrgellydd a staff sydd wedi'u henwebu. | | |
| | Gwell fynediad at ystod ehangach o adnoddau electronig. | Nodi a gwerthuso adnoddau ar-lein newydd sy'n adlewyrchu anghenion cyfredol defnyddwyr. Er enghraifft, 'y casgliad papurau newydd ar-lein'.<br><br>Parhau i hyrwyddo ac annog cwsmeriaid i ddefnyddio'r ap llyfrgell 'Pori'.<br><br>Parhau i weithio gyda'r Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd a Chymdeithas y Prif Lyfrgellwyr i nodi adnoddau Cymru Gyfan posibl. | Prif Lyfrgellydd a Llyfrgellydd y Gwasanaethau Gwybodaeth.<br><br>Staff rheng flaen a Llyfrgellydd Ardal.<br><br>Prif Lyfrgellydd. | Rhagor o ddefnydd o adnoddau electronig.<br><br>Nifer y bobl sy'n lawrlwytho ac yn defnyddio'r ap 'Pori'. | |

| Themâu | Amcan | Camau gweithredu | Seminar | Dangosydd Cyflawniad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhau i weithio gyda Chymdeithas y Prif Lyfrgellwyr i greu Cerdyn Llyfrgell Cymru Gyfan. | Prif Lyfrgellydd. | | |
| | Gwella'r defnydd o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol ar gyfer hyrwyddo. | Pob aelod o staff y llyfrgell i gymryd rhan mewn paratoi cynnwys digidol.<br><br>Paratoi a datblygu cynnwys digidol i wella ymgysylltiad cwsmeriaid a mynediad at adnoddau ar-lein gan adeiladu ar yr hyfforddiant technegol a ddarperir gan brosiect Estyn Allan.<br><br>Archwilio’r posibilrwydd o'r defnydd o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol eraill ac yn arbennig Instagram gan lyfrgelloedd. | Staff y llyfrgell.<br><br>Staff llyfrgell sydd wedi derbyn hyfforddiant Estyn Allan.<br><br>Llyfrgellydd Ardal. | Cynnydd ym maint y cynnwys digidol sy'n cael ei baratoi yn fewnol.<br><br>Nifer yr ymwelwyr â chyfryngau cymdeithasol Gwasanaeth y Llyfrgelloedd.<br><br>Nifer y negeseuon gan lyfrgelloedd ar y cyfryngau cymdeithasol. | |
| | Creu platfform digidol integredig i alluogi mynediad i gynnwys digidol yn barhaus. | Gweithio gyda sefydliadau arbenigol yn rhan o brosiect ‘Altered Images’ i hwyluso creu gwefan hollgynhwysol sy’n arddangos, cofnodi, cadw a hyrwyddo diwylliant, hanes a | Prif Lyfrgellydd, Llyfrgellydd Gwasanaethau Gwybodaeth, cydlynydd y Prosiect ac aelodau eraill o'r bwrdd prosiect. | Nifer yr ymwelwyr â'r llwyfan newydd. | |

| Themâu | Amcan | Camau gweithredu | Seminar | Dangosydd Cyflawniad | Sylwadau |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| | | threftadaeth Rhondda Cynon Taf.<br><br>Gweithio gyda'r adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd ac SCL Cymru i archwilio datblygiad platfform adnoddau digidol Cymru gyfan. | Prif Lyfrgellydd. | | |
| | Rhagor o raglenni a gweithgareddau digidol i blant a phobl ifainc yn llyfrgelloedd RhCT. | Ail-lansio Clwb Codio a gweithio i ehangu'r ddarpariaeth i ganghennau eraill ar draws yr awdurdod.<br><br>Archwilio'r defnydd o dechnolegau newydd fel clustffonau VR i ymgysylltu â phlant a phobl ifainc mewn achlysuron llyfrgell. | Llyfrgellydd Gwasanaethau Gwybodaeth a Llyfrgellydd Gwasanaethau i Blant | Nifer y Clybiau Codio.<br><br>Nifer y plant sy'n cymryd rhan mewn Clybiau Codio. | |
| Gwella profiad y llyfrgelloedd i ddefnyddwyr. | Canolfannau yn y Gymuned. | Parhau i ddatblygu gwasanaethau llyfrgell o fewn Canolfannau yn y Gymuned i wella ac ehangu'r cyngor, yr wybodaeth a'r gwasanaethau sydd ar gael. | Prif lyfrgellydd a staff sydd wedi'u henwebu. | Nifer yr ymwelwyr.<br><br>Nifer y partneriaid/sefydliadau sy'n cynnig sesiynau.<br><br>Nifer yr arddangosfeydd a | |

| Themâu | Amcan | Camau gweithredu | Seminar | Dangosydd Cyflawniad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Gweithio gyda'r garfan Gwasanaethau Cymunedol i estyn allan at bartneriaid rhwydwaith i wella amlygrwydd gwasanaethau'r llyfrgell a rhwydweithio â grwpiau anodd eu cyrraedd.<br><br>Gweithio mewn partneriaeth â'r Parc a'r Dâr i ddatblygu a gwreiddio'r canolbwynt diwylliannol newydd yn Llyfrgell Treorci.<br><br>Cefnogi cynllun 'Heneiddio'n Dda yng Nghymru' drwy gyflwyno mentrau sy'n dileu rhwystrau i fynediad gan bobl hŷn. | Llyfrgellydd Ardal a staff rheng flaen.<br><br>Llyfrgellydd Ardal a llyfrgellydd cangen Llyfrgell Treorci.<br><br>Llyfrgellydd ardal a staff sydd wedi'u henwebu. | gweithgareddau diwylliannol a gynhelir yn Llyfrgell Treorci. | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | Mwy o gyfleoedd dysgu ar gael i bobl o bob oedran. | Gweithio gyda sefydliad Cymunedau Digidol Cymru a chefnogi | Prif lyfrgellydd a staff sydd wedi'u henwebu. | Nifer y bobl sy'n manteisio ar gyfleoedd dysgu. | |

| Themâu | Amcan | Camau gweithredu | Seminar | Dangosydd Cyflawniad | Sylwadau |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| | | mentrau cynhwysiant digidol i roi cymorth i bobl fynd ar-lein.<br><br>Gweithio gyda phartneriaid i gynnig cyrsiau sgiliau sylfaenol gan gynnwys dosbarthiadau Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill a dosbarthiadau Cymraeg.<br><br>Gweithio gyda phartneriaid i gynnal rhaglen o gymorth llythrennedd digidol.<br>• Dydd Gwener Digidol<br>• Clybiau Gwaith<br><br>Cynnig cyfleoedd i wirfoddoli, gan roi profiad gwirfoddoli ystyrlon i bob person i'w gwneud yn fwy parod am swydd.<br><br>Gwasanaeth y Llyfrgelloedd i Ysgolion i baratoi teitlau ac adnoddau newydd sy'n | Llyfrgellydd Gwasanaethau i Blant. | Nifer y gwirfoddolwyr ac oriau gwirfoddoli.<br><br>Nifer yr ysgolion sy'n nodi eu bod nhw'n fodlon â Gwasanaeth y Llyfrgelloedd i Ysgolion. | |

| Themâu | Amcan | Camau gweithredu | Seminar | Dangosydd Cyflawniad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | adlewyrchu anghenion cwricwlwm ysgol newydd Cymru. | | | |
| | Gwella'r gallu i ddod o hyd i wybodaeth a gwasanaethau cynghori mewn llyfrgelloedd, a'u defnyddio. | Sefydlu gwasanaeth IBobUn yng Ngwasanaeth y Lllyfrgelloedd i wneud y defnydd mwyaf posibl o'r adnoddau sydd ar gael.<br><br>Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu gwybodaeth a chyngor yn ein llyfrgelloedd:<br>• Addysg i Oedolion<br>•Cymunedau yn Gyntaf a Mwy<br>•Canolfan Byd Gwaith<br><br>Hyrwyddo a chefnogi'r cynllun 'Darllen yn Well' drwy ddatblygu casgliadau o lyfrau sy'n cefnogi iechyd a lles grwpiau targed. | Prif lyfrgellydd a staff sydd wedi'u henwebu.<br><br>Llyfrgellydd yr Ardal. | Nifer y cwsmeriaid sy'n defnyddio'r gwasanaeth IBobUn.<br><br>Nifer y bobl sy'n mynychu sesiynau gwybodaeth a chyngor.<br><br>Nifer y benthyciadau Darllen yn Well. | |
| | Gweithgareddau diwylliannol. | Annog staff i gefnogi rhagor o grwpiau darllen mewn llyfrgelloedd a'r cymunedau ehangach. | Llyfrgellydd Ardal a llyfrgellwyr cangen. | Nifer y grwpiau darllen.<br><br>Nifer y grwpiau 'Ffrindiau Darllen'. | |

| Themâu | Amcan | Camau gweithredu | Seminar | Dangosydd Cyflawniad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Archwilio'r posibilrwydd o sefydlu grwpiau 'Ffrindiau Darllen'.<br><br>Hyrwyddo Sialens Ddarllen yr Haf a chynyddu'r cyfranogiad a nifery plant sy'n ei chwblhau.<br><br>Gweithio i ddatblygu rhaglenni y tu allan i oriau agor craidd.<br><br>Gweithio gyda chydlynydd y prosiect a phartneriaid i gyflawni'r holl nodau ac amcanion a nodir ym mhrosiect Cronfa Dreftadaeth y Loteri 'Altered Images'.<br><br>Gweithio gyda phartneriaid, gan ddarparu lle am ddim mewn llyfrgelloedd ar gyfer achlysuron diwylliannol gan gynnwys arddangosfeydd, sgyrsiau am hanes lleol, achlysuron awduron ac achlysuron sy'n | Llyfrgellydd Gwasanaethau i Blant.<br><br>Prif Lyfrgellydd a Llyfrgellydd Ardal.<br><br>Prif Lyfrgellydd, Llyfrgellydd Gwasanaethau Gwybodaeth, cydlynydd y prosiect ac aelodau eraill o'r bwrdd prosiect.<br><br>Llyfrgellwyr Canghennau. | Nifer y plant sy'n cymryd rhan yn Sialens Ddarllen yr Haf yn cyrraedd canolrif Cymru gyfan.<br><br>Nifer y sesiynau y tu allan i oriau agor arferol. | |

| Themâu | Amcan | Camau gweithredu | Seminar | Dangosydd Cyflawniad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | gysylltiedig ag ymgyrchoedd cenedlaethol neu leol. e.e. Diwrnod y Llyfr. | | | |
| | Staff medrus â chymwysterau da. | Ceisio cyllid a chyfleoedd sy'n galluogi staff i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen mewn gwasanaeth llyfrgell modern.<br><br>Parhau i gefnogi staff sy'n dymuno dilyn cymwysterau ffurfiol.<br><br>Cadw at safonau'r Gymraeg drwy gefnogi dysgu Cymraeg a recriwtio siaradwyr Cymraeg lle bo galw am wasanaethau.<br><br>Adolygu'r strwythur staffio presennol i sicrhau llwybrau gyrfa posibl. | Prif Lyfrgellydd. | Nifer yr oriau hyfforddi staff.<br><br>Nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gwasanaeth. | |
| Manteisio ar y cyfleoedd a'r gwersi a | Denu cynulleidfaoedd newydd ac amrywiol. | Adeiladu ar lwyddiant darparu cynnwys digidol | | Nifer y sesiynau ar-lein.<br><br>Nifer y grwpiau ar-lein. | |

| Themâu | Amcan | Camau gweithredu | Seminar | Dangosydd Cyflawniad | Sylwadau |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| ddysgwyd o bandemig Covid-19 i lywio a llunio'r ddarpariaeth yn y dyfodol. | | a gyflawnwyd yn ystod y pandemig covid-19. Mae hyn yn cynnwys:<br>• Paratoi a datblygu ein cynnwys digidol ein hunain megis amser stori a sesiynau crefft.<br>• Annog datblygiad grwpiau ar-lein gan gynnwys clybiau llyfrau a grwpiau darllen.<br><br>Adolygu ein polisi stoc i baratoi cyfuniad mwy perthnasol o adnoddau digidol a thraddodiadol ac addasu gwariant y gyllideb llyfrau yn unol â hynny.<br><br>Adolygu'r polisi presennol o godi dirwyon am lyfrau hwyr.<br><br>Adolygu taliadau llogi ystafelloedd ar gyfer y sefydliadau sydd angen talu i logi. | Prif Lyfrgellydd a'r Llyfrgellydd Gwasanaethau i Blant.<br><br>Llyfrgellydd Gwasanaethau Gwybodaeth, y Llyfrgellydd Ardal a'r Llyfrgellydd Pobl Ifainc.<br><br>Prif Lyfrgellydd a Llyfrgellydd Ardal.<br><br>Prif Lyfrgellydd.<br><br>Llyfrgellydd Ardal. | | |